# PWYLLGOR IAITH, 11.10.12

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Liz Saville Roberts (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Gweno Glyn (Is-gadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Craig ab Iago, Tom Ellis, Alan Jones Evans, Alwyn Gruffydd, Eric M.Jones, Elfed Williams, Gruffydd Williams a Mandy Williams-Davies.

**Swyddogion:** Sion Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith), Ruth Richards (Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Sylwedydd:** Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet – Gofal Cwsmer).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Elwyn Edwards, Selwyn Griffiths, Mair Rowlands, Gareth Thomas ac Eirwyn Williams; Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol).

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. MATERION BRYS**

(1) Y Ddeddf Diwygio Lles

Cyflwynwyd – drafft o lythyr gan Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol, at Gomisiynydd y Gymraeg:-

- Yn datgan pryder y bydd y newidiadau arfaethedig i'r gyfundrefn budd-daliadau yn golygu y bydd llai o gyfle i drigolion Gwynedd ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â'r broses o dderbyn budd-dal.
- Yn galw am drafod y pryderon hyn gyda hi a chael clywed beth yw ei phryderon hi yn hyn o beth.
- Yn gofyn am fwy o wybodaeth ynglŷn â pha ofynion sydd ar yr Adran Gwaith a Phensiynau i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg, naill ai dan unrhyw Gynllun Iaith presennol neu o dan y Safonau Iaith arfaethedig.
- Yn galw am gydweithio â hi i geisio dylanwadu ar yr Adran Gwaith a Phensiynau i hyrwyddo cymaint â phosibl ar y Gymraeg wrth roi'r gyfundrefn newydd ar waith.

Gofynnwyd am sylwadau'r pwyllgor ar gynnwys y llythyr.

Mynegwyd pryder bod unrhyw rymoedd sydd gan Gomisiynydd y Gymraeg wedi'u cyfyngu i faterion sydd wedi'u datganoli ac y dylid mynnu bod y Comisiynydd yn galw am adfer y grymoedd oedd gan y Bwrdd Iaith gynt dros bob corff cyhoeddus sy'n weithredol yng Nghymru.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r llythyr drafft a'i anfon yn enw'r Pwyllgor Iaith a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol.**

(2) Hyrwyddwr y Gymraeg Mewn Ysgolion

Gofynnwyd i'r pwyllgor gefnogi bid y Gwasanaeth Ysgolion i'r Cyngor ariannu hanner swydd Hyrwyddwr y Gymraeg Mewn Ysgolion Cynradd.

Eglurwyd y derbyniwyd arian trwy law Llywodraeth Cymru am hanner y swydd, ac er y rhagdybiwyd yn wreiddiol mai'r ysgolion fyddai'n cyfarfod â gweddill y gost, 'roedd y Gweithgor a sefydlwyd i lunio'r Siarter Iaith i Ysgolion o'r farn y dylai'r arian ddod o goffrau corfforaethol y Cyngor gan mai un o brif nodau ac amcanion Cyngor Gwynedd yw hyrwyddo a gwarchod y Gymraeg. Gan hynny, 'roedd y Pennaeth Ysgolion wedi cyflwyno bid i'r Cyngor am weddill yr arian ac 'roedd y Gweithgor yn awyddus i sicrhau cefnogaeth y Pwyllgor Iaith i hynny.

**PENDERFYNWYD rhoi cefnogaeth unfrydol i fid y Gwasanaeth Ysgolion am arian o goffrau corfforaethol y Cyngor i ariannu hanner swydd Hyrwyddwr y Gymraeg Mewn Ysgolion Cynradd.**

## 3. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 28 Mehefin, 2012 fel rhai cywir.

Mater yn codi o'r cofnodion
Eitem 6 – Adroddiad Monitro Cynllun Iaith 2011/12

Gofynnodd y Cadeirydd am osod eitem ar raglen y Pwyllgor Iaith i dderbyn cyflwyniad ar waith y Pencampwyr Iaith yn y Canolfannau Hamdden.

## 4. ENWAU SAFONOL STRYDOEDD, TAI A LLEOEDD

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn cyflwyno gwybodaeth gefndir am y maes yn unol â chais y pwyllgor hwn yn eu cyfarfod diwethaf.

Gan gyfeirio at ymchwiliad Comisiynydd y Gymraeg i achos yn ymwneud â'r defnydd o gyfeiriadau Cymraeg (paragraff 1.8 o'r adroddiad), nododd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith fod y Comisiynydd bellach wedi cadarnhau ei bod yn fodlon bod y Cyngor yn cydymffurfio â'i Gynllun Iaith.

Nododd ymhellach y derbyniwyd llythyr gan Glerc Cyngor Tref Pwllheli yn gofyn i'r Cyngor hysbysu pob pennaeth gwasanaeth o'r gofyn i ddefnyddio'r ffurfiau Cymraeg o enwau strydoedd ac i gysylltu â'r Swyddfa Bost a BT gan geisio dwyn perswâd arnynt hwythau i arddel y fersiynau Cymraeg yn hytrach na'r Saesneg.

Gofynnwyd i'r swyddogion holi ynglŷn â'r posibilrwydd o ddefnyddio'r enwau Cymraeg yn unig ar arwyddion stryd yn y dyfodol.

Nodwyd nad oedd modd rhoi arwydd ar ffordd sy'n dilyn o ffordd arall ar hyn o bryd a bod llawer o'r hen enwau Cymraeg yn cael eu colli o ganlyniad i hynny.

**PENDERFYNWYD**
**(a) Bod aelodau'r pwyllgor hwn yn dwyn sylw at unrhyw esiamplau penodol o enwau di-Gymraeg ar nodweddion daearyddol yn eu hardaloedd.**
**(b) Gwahodd cynrychiolydd o Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru i gyfarfod â'r pwyllgor i sôn mwy am waith y sefydliad ac i drafod sut y gall y Cyngor eu cynorthwyo.**

**(c) Atgoffa pob pennaeth gwasanaeth o'r gofyn i ddefnyddio'r ffurfiau Cymraeg o enwau strydoedd.**

**(ch) Cysylltu â'r Swyddfa Bost a BT gan geisio dwyn perswâd arnynt hwythau i arddel y fersiynau Cymraeg o enwau strydoedd.**

**(d) Gwneud ymholiadau erbyn y cyfarfod nesaf ynglŷn â'r posibilrwydd o ddefnyddio'r enwau Cymraeg yn unig ar arwyddion stryd yn y dyfodol.**

**5. YMATEB COMISIYNYDD Y GYMRAEG I ADRODDIAD MONITRO IAITH BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2011-12**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn cyflwyno sylwadau'r Comisiynydd ar Adroddiad Monitro Iaith Blynyddol Cyngor Gwynedd 2011-12 ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r cais am ragor o wybodaeth ar agweddau o'r adroddiad.

Rhoddwyd sylw penodol i'r materion a ganlyn:-

(i) <u>D.1 – Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Sgiliau Iaith</u>

**PENDERFYNWYD anfon neges at y Pennaeth Adnoddau Dynol yn datgan fod y pwyllgor yn awyddus i weld y gronfa ddata ar gyfer cofnodi sgiliau iaith staff mewn lle cyn Mawrth 2014 ac adrodd yn ôl ar yr ymateb i'r cyfarfod nesaf.**

(ii) <u>5.A – Nifer y swyddogion di-Gymraeg a benodwyd i swyddi 'Cymraeg Hanfodol' a'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant iaith</u>

Holwyd pa adran(nau) oedd wedi penodi'r 2 swyddog nad oedd yn cyrraedd gofynion ieithyddol eu swyddi. Cytunodd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith i wneud ymholiadau ac adrodd yn ôl.

(iii) <u>5.B – Nifer y staff sy'n siarad Cymraeg a chyfanswm aelodau staff yr adrannau</u>

Sylwyd bod yr amcangyfrif o ganran y siaradwyr Cymraeg yn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden yn llawer is na'r adrannau eraill. Nodwyd ei bod yn anodd denu siaradwyr Cymraeg i rai swyddi yn y meysydd hynny a bod llawer o'r gwasanaethau a ddarperir gan yr adran yn cael eu preifateiddio. Holwyd a oedd modd targedu pobl ifanc sy'n cychwyn meddwl am eu llwybr gyrfa drwy eu hannog i ystyried cyrsiau yn y meysydd hyn.

**PENDERFYNWYD edrych yn fanylach pam bod y ffigurau'n isel yn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden.**

(iv) <u>B.2 – Cyd-ddarparu rhai gwasanaethau arbenigol ar gyfer plant</u>

Mynegwyd y farn bod y ddogfen interim 'Canllawiau Iaith' (Atodiad 3 i'r adroddiad) yn tramgwyddo Cynllun Iaith Gwynedd. Pwysleisiwyd na ddylid cydsynio i unrhyw beth sy'n tanseilio Cynllun Iaith y Cyngor hwn, ac mewn sefyllfa o wrthdaro rhwng dau gynllun iaith, dylid defnyddio'r cryfaf ohonynt.

**PENDERFYNWYD anfon sylwadau'r pwyllgor at Fwrdd Rheoli Derwen, drwy gysylltu'n gyntaf â'r Rheolwr Gwasanaeth, Tîm Integredig Plant Anabl, ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.**

(v) <u>D.3 – Sesiynau ymwybyddiaeth iaith i staff rheng flaen nad ydynt yn staff gofal neu weithwyr ieuenctid</u>

Nodwyd y dylid ceisio dwyn perswâd ar bobl i fynychu'r sesiynau hyn. Nododd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith mai ond yn ddiweddar iawn y gosodwyd dyddiadau ar gyfer y sesiynau hyn ac y byddai'n cael gair gyda'r Uned Hyfforddi maes o law er mwyn gweld pa fath o ymateb a gafwyd o ran niferoedd.

**PENDERFYNWYD derbyn ymateb Comisiynydd y Gymraeg i Adroddiad Monitro Iaith Blynyddol Cyngor Gwynedd 2011-12 ac ymateb y Cyngor i'r cais am ragor o wybodaeth ar agweddau o'r adroddiad.**

**6. CWYNION IAITH**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn manylu ar y cwynion iaith diweddaraf i law yn erbyn y Cyngor, cwynion yn ymwneud â chyrff eraill ac amrywiol faterion eraill perthnasol.

Rhoddwyd sylw penodol i'r materion a ganlyn:-

(i) Cyfarwyddyd uniaith Saesneg ar groesfan newydd ar ffordd osgoi Porthmadog

Awgrymodd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith ei bod bellach yn amserol i gyfeirio'r mater hwn ymlaen at Gomisiynydd y Gymraeg gan na dderbyniwyd ymateb cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru.

(ii) Y defnydd o'r geiriad 'gwastraff cŵn' ar finiau'r Cyngor

Argymhellwyd mai'r geiriad 'baw cŵn' ddylid ei ddefnyddio ar finiau'r Cyngor, ac na dderbynnid datganiad yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol mai 'gwastraff cŵn' oedd y geiriad safonol.

**PENDERFYNWYD cyfeirio'r mater i sylw Uned Gyfieithu Llywodraeth Cymru ac Uned Gyfieithu'r Cyngor am farn.**

(iii) Ffurflen Trwyddedu Digwyddiadau Uniaith Saesneg

**PENDERFYNWYD defnyddio'r fersiwn Gymraeg answyddogol o'r ffurflen hyd oni dderbynnir arweiniad pellach gan Gomisiynydd y Gymraeg.**

(iv) System hidlo negeseuon electronig mewnol uniaith Saesneg

**PENDERFYNWYD adrodd yn ôl i'r pwyllgor hwn ar ganlyniadau ymdrechion y Gwasanaeth Gofal Cwsmer i geisio datrysiad i'r broblem gyda'r cwmni.**

(v) Methiant i ddarparu cyfweliad drwy gyfrwng y Gymraeg

**PENDERFYNWYD anfon neges at yr holl benaethiaid yn eu rhagrybuddio o'r hyn all ddigwydd os nad ydynt yn trefnu cyfweliadau trwy gyfrwng y Gymraeg.**

(vi) Arwydd WC ar yr A487, Porthmadog

Pwysleisiwyd yr angen i gadw golwg ar y mater hwn.

(vii) Yr angen i adolygu'r polisïau cynllunio cenedlaethol fel y rhoddir mwy o ystyriaeth i'r angen i gael arwyddion yn y Gymraeg ar ddatblygiadau manwerthu

**PENDERFYNWYD anfon llythyr at Leighton Andrews, AC, Y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn gofyn iddo gadarnhau rôl Comisiynydd y Gymraeg yn y cyd-destun yma ac i bwyso am sicrwydd o'r grym yma.**

(viii) Bysus Padarn

**PENDERFYNWYD gofyn i'r Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith drafod trefniadau'r cyfarfod gyda'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.**

Codwyd y materion ychwanegol a ganlyn gan aelodau:-

(i) Marchnad Caernarfon

Nodwyd bod marchnad Caernarfon yn arddangos arwyddion uniaith Saesneg.

**PENDERFYNWYD gofyn i'r Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith edrych pa bwerau sydd gan y Cyngor yng nghyswllt achosion o'r fath.**

(ii) Ffurflenni CRB Uniaith Saesneg

Nododd aelod fod ffurflen CRB y gofynnwyd iddo'i llenwi'n ddiweddar yn rhinwedd ei swyddogaeth fel llywodraethwr Ysgol Bro Hedd Wyn, Trawsfynydd, yn uniaith Saesneg.

**PENDERFYNWYD bod y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn cael y manylion llawn gan yr aelod ac yn edrych i mewn i'r mater.**

(iii) Tystysgrifau Nofio Uniaith Saesneg ym Mhwll Nofio Blaenau Ffestiniog

Nodwyd bod plant wedi bod yn derbyn tystysgrifau nofio uniaith Saesneg ym Mhwll Nofio Blaenau Ffestiniog.

Atebodd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith ei bod yn credu bod y mater hwn wedi'i ddatrys, ond y byddai'n gwirio hynny gyda'r Uwch Reolwr Gweithredol, Darparu a Hamdden.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.10pm.